OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 71 (Cy.17)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Traffordd yr M4 (Cyffordd 24, Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *14 Ionawr 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *15 Ionawr 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *15 Chwefror 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 17(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), ac ar ôl ymgynghori â'r cyrff cynrychioliadol y barnwyd eu bod yn addas yn unol ag adran 134(2) o'r Ddeddf honno(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.** Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 15 Chwefror 2010 a'u henw yw Rheoliadau Traffordd yr M4 (Cyffordd 24, Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2010.

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Traffordd yr M4" ("*the M4 Motorway*") yw Traffordd Llundain i Dde Cymru yr M4.

### Gosod terfyn cyflymder

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r ffordd wrth Gyffordd 24 Traffordd yr M4, Cyfnewidfa Coldra, yn Ninas Casnewydd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

*Ieuan Wyn Jones*
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

14 Ionawr 2010

(**1**) 1984 p.27. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) Amnewidiwyd adran 134(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), Atodlen 8, paragraff 77.

## YR ATODLEN

### Darnau o slipffyrdd Traffordd yr M4 wrth Gyffordd 24, Cyfnewidfa Coldra yn Ninas Casnewydd

**Y FFORDD YMADAEL TUA'R DWYRAIN**

Y darn hwnnw o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 123 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cyfnewidfa Coldra hyd at bwynt lle mae'n uno â cherbytffordd gylchredol Cyfnewidfa Coldra.

**Y FFORDD YMUNO TUA'R DWYRAIN**

Y darn hwnnw o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cyfnewidfa Coldra hyd at bwynt 25 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cyfnewidfa Coldra.

**Y FFORDD YMADAEL TUA'R GORLLEWIN**

Y darn hwnnw o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt 114 o fetrau i'r gorllewin o'r pwynt lle mae'n gwyro oddi ar brif gerbytffordd Traffordd yr M4 hyd at bwynt wrth ei chyffordd â cherbytffordd Cyfnewidfa Coldra.

**Y FFORDD YMADAEL TUA'R GORLLEWIN (Y LÔN AR WAHÂN)**

Y darn hwnnw o'r ffordd ar wahân i ymadael tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt 114 o fetrau i'r gorllewin o'r pwynt lle mae'n gwyro oddi ar brif gerbytffordd Traffordd yr M4 hyd at bwynt lle mae'n uno â cherbytffordd Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yr A48.

**Y FFORDD YMUNO TUA'R GORLLEWIN**

Y darn hwnnw o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cyfnewidfa Coldra hyd at bwynt 6 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cyfnewidfa Coldra.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod terfyn cyflymder uchaf o 40 milltir yr awr (yn lle'r terfyn cyflymder cyffredinol o 70 milltir yr awr a osodir ar draffyrdd gan Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974 (O.S. 1974/502)) ar y darnau o draffordd yr M4 a bennir yn y Rheoliadau hyn.